

## Trenau Arriva Cymru, Tachwedd 2015

*Cysylltu pobl a chymunedau gyda'r hyn sy'n bwysig iddynt*


### Llwyddiannau allweddol

- Bodlondeb cwsmeriaid ar y lefel gorau a gofnodwyd - 89% (Gwanwyn 2015)
- Perfformiad Eithriadol - yn gyson yn un o'r prif gwmnïau rheilffordd o ran perfformiad gorau gan drenau yn y Deyrnas Gyfunol.
- Buddsoddiad o £45 miliwn ers dechrau'r fasnachfaint yn erbyn £400k o ofyniad contract.
- Un o'r cyflogwyr mwyaf yng Nghymru, yn cyflogi mwy na 2,000 o bobl ac wedi creu 300 o swyddi ychwanegol ers dechrau'r fasnachfaint.
- Yn ddiweddar, recriwtiwyd 21 o brentisiaid a 13 o hyfforddeion graddedig.

### Mesuryddion Perfformiad Allweddol

1. Mesurau Perfformiad Cyhoeddus (mesurau safonol y diwydiant ar gyfer Dibynadwyedd a Phrydlondeb)


- Dibynadwyedd a phrydlondeb blyneddol ar hyn o bryd yn 97.9% a 93.5%.
- Un o bump prif berfformwyr y diwydiant
- Ail berfformiwr gorau o ran gweithredu ar amser (Trenau yn cyrraedd a gadael cyn pen munud o'r amser nodwyd)



Mae'r graff yn dangos y camau enfawr a wnaed i wella prydlondeb a dibynadwyedd fel rhan o fesur PPM y diwydiant. Rydym yn gyson yn perfformio'n well na'r meincnod a osodwyd ar ddechrau'r masnachfaint oedd yn cynrychioli lefelau perfformiad a ystyriwyd yn heriol ond yn gyraeddadwy ar y pryd.

## 2. Arolwg Cenedlaethol Teithwyr

- Erbyn hyn mae bodlonrwydd cyffredinol wedi codi i 89%, i fyny 10% o'r adeg pan ddechreuodd y fasnachfaint ac 8% uwchben meincnod y fasnachfaint.
- Mae 31 allan o'r 32 gwahanol faes mesur wedi gwella yn ystod y ddegawd ddiwethaf.



Mae'r Arolwg Cenedlaethol Teithwyr Rheilffordd yn dangos barn cwsmeriaid am y gwaith a wnaed gennym dros y blynyddoedd.

## Buddsoddi yn y Fasnachfaint

Rydym wedi buddsoddi £45 miliwn yn erbyn gofyniad masnachfaint o dim ond £400,000. Mae buddsoddiad TAC yn cynnwys:

- Dros £11m ar ail-wampio trenau (Fflyd Dosbarth 158 a gwasanaethau gaiff eu tynnu gan locos).
- Gorsaf Caer (£2m)
- Peiriant smalio Gyrru Trên (£2m)
- Cyfleusterau gwell i staff (£2m)
- Giatiau tocynnau (£3m)
- 123 Peiriannau gwerthu tocynnau ar draws y rhwydwaith (£5m)
- Depo newydd sbon ym Machynlleth (£3m)
- Turn olwyn newydd (£2m)
  
- Nifer o brosiectau eraill llai fel gwelliannau i oleuadau gorsafoedd yn werth cyfanswm o £10m
- Rhaglen Genedlaethol i wella Gorsafoedd mewn parterniaeth gyda eraill ac amryfal welliannau ar gyfer hygyrchedd.
- Gwaith ail-wampio sylweddol wedi cynnwys Aberystwyth, Llandudno a'r Rhyl a gorsafoedd newydd yn Nhref Glyn Ebwy, Energlyn a Churchill Park, Abergwaun a Gwdig.

## **Gwasanaethau newydd a gwell**

Mae TAC yn gyson wedi gweithredu i ychwanegu capasiti a gwella gwasanaethau tra'n gweithio gyda nifer gyfyngedig o fflyd. Rydym yn darparu 20% yn fwy o wasanaethau (65,000 o wasanaethau y flwyddyn) na'r hyn a bennwyd gan y cytundeb masnachfaint ac rydym wedi ychwanegu 525,000 o seddi blynyddol i'r amserlen yn 2012 yn unig. Ychwanegwyd tua 5000 o drenau ychwanegol y flwyddyn ym Mai 2013 ar gyfer Tre- gŵyr ar ôl gwelliannau i'r orsaf gan ailddyblu traphont Lluchwr heb unrhyw gost ychwanegol i'r trethdalwr. Yn 2015, ar gais Llywodraeth Cymru, cafwyd gwasanaethau ychwanegol ar reilffordd Calon Cymru a rheilffyrdd y Cambrian gan ymestyn yr amserlenni i orsaf newydd Tref Glyn Ebwy. Cyflwynwyd dau gynnyrch mticket ffôn glyfar ynghyd â Pheiriannau Gwerthu Tocynnau gyda chymorth fideo cyntaf y DG. Mae TAC yn gefnogwr allweddol i brosiectau cymunedol yn cynnwys Chwaraeon Anabledd Cymru, Felothon Cymru a Hanner Marathon Caerdydd.

## **Trosolwg o'r Fasnachfaint**

Mae ein rhwydwaith yn ymestyn drwy Gymru a siroedd gororau Lloegr gan ddarparu gwasanaethau lleol a hirbell i gyrchfannau gan gynnwys y prif ddinasoedd fel Abertawe, Caerdydd, Casnewydd, Birmingham, Caer a Manceinion.

- 2,204 o weithwyr
- Dechreuodd y fasnachfaint yn Rhagfyr 2003 am 15 mlynedd
- 1,009 milltir o lwybrau teithio
- 956 o wasanaethau yn cael eu gweithredu y dydd
- 27.4 miliwn o deithiau gan deithwyr y flwyddyn
- Fflyd o 128 trên
- 247 gorsaf, 55 ohonynt gyda staff

*Pobl angerddol a balch sy'n darparu gwasanaeth ardderchog - bob tro.*